OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 357 (Cy.45)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*14 Chwefror 2006*
Yn dod i rym - -	*20 Chwefror 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006. Deuant i rym ar 20 Chwefror 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005

2. Diwygir Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 5.

3. Yn rheoliad 2(1) (Dehongli)—

(a) ar ddiwedd y diffiniad o "Commission Regulation 795/2004" mewnosoder ", as last amended by Commission Regulation (EC) No. 394/2005(**4**), Commission Regulation (EC) No. 606/2005(**5**), Commission Regulation (EC) No. 1085/2005(**6**) and Commission Regulation (EC) No. 1701/2005(**7**).”; a,

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2005/360 (Cy.29).
(**4**) O.J. Rhif L63, 10.3.2005, t.17.
(**5**) O.J. Rhif L100, 20.4.05, t.15.
(**6**) O.J. Rhif L 177, 9.7.05, t.27.
(**7**) O.J. Rhif L273, 19.10.05.